# Cynorthwyo  wrth ymdrin â chesig ac ebolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynorthwyo wrth ymdrin â chesig ac ebolion. Gallai hyn gynnwys dal, arwain a throi caseg ac ebol allan i'r cae, a dal caseg ac ebol i gael eu harchwilio neu eu trin. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y weithdrefn diddyfnu.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at a chynorthwyo wrth ymdrin â'r gaseg a'r ebol mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffylau a'r perygl i chi eich hun ac i eraill
3. troi caseg ac ebol allan yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. cyflwyno caseg ac ebol i geffylau eraill
5. dal a dod â chaseg i mewn yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. dal caseg ac ebol i gael eu harchwilio, yn unol â'r cyfarwyddyd
7. cynorthwyo gyda'r broses ddiddyfnu, yn unol â'r gweithdrefnau
8. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas
9. cynnal eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i ymdrin â chesig ac ebolion
3. y gofynion ar gyfer cyflwyno caseg ac ebol i geffylau eraill
4. y dulliau ar gyfer dal cesig ac ebolion i gael archwiliad milfeddygol neu driniaethau arferol
5. yr oed arferol ar gyfer diddyfnu ebol
6. dulliau diddyfnu ac adweithiau'r ebol i ddiddyfnu
7. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth ymdrin â chaseg ac ebol, a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
8. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Ymdrin â chaseg ac ebol tra’n:

- dal caseg ac ebol yn y stabl
- troi caseg ac ebol allan
- dod â chaseg ac ebol i mewn o'r cae
- dal caseg neu ebol i gael archwiliad neu driniaeth

# Cynorthwyo  wrth ymdrin â chesig ac ebolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq236 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; caseg; ebol; cae; diddyfnu |